# Gwahoddiad i Dendro i Gefnogi Prosiect Mapio Gwasanaetha u Chwaraeon Cymru

# *Gwahoddiad i Dendro i Gefnogi Prosiect Mapio Gwasanaethau Chwaraeon Cymru*

## Cynnwys


Geirfa o Dermau ........ 3
1. Cefndir ........ 4
2. Trosolwg o'r Gofyniad ........ 5
3. Nodau ........ 5
4. Cwmpas y Gwaith ........ 6
5. Elfennau i'w Cyflawni ........ 8
6. Gofynion i'r Cyflenwr ........ 9
7. Cyflwyno Ymatebion / Amserlen ........ 10
8. Manylion Cyfrinachol ........ 10
9. Treuliau a Cholledion yn y Tendr ........ 11
10. Derbyn Tendrau ........ 11
11. Ymrwymiad Cytundebol y Cais ........ 11
12. Amodau'r Tendr ........ 11
13. Newidiadau i'r Fanyleb a'r Gofynion ........ 12
14. Telerau Talu ........ 12
15. Diogelwch ........ 13
16. Yr Iaith Gymraeg ........ 13
17. Rheoli a Llywodraethu'r Contract ........ 13
18. Y Broses Asesu ........ 15
19. Gofynion ........ 19
20. Rhestr wirio o ddogfennau ymateb i'w dychwelyd ........ 22

# Geirfa o Dermau

Mae'r eirfa hon yn darparu diffiniadau o dermau a chysyniadau allweddol a ddefnyddir drwy gydol y Gwahoddiad i Dendro a'i ddogfennau ategol. Y bwriad yw iddi gefnogi eglurder a dealltwriaeth gyffredin rhwng yr holl bartïon dan sylw. Lle defnyddir iaith dechnegol, gytundebol neu benodol i'r sector, mae'r eirfa'n cynnig esboniadau hygyrch i sicrhau cysondeb mewn dehongliad ac i gynorthwyo gyda rheoli'r contract yn effeithiol.

Nid yw'r termau a restrir yma'n hollgynhwysfawr ond maent yn canolbwyntio ar yr elfennau pwysicaf sy'n berthnasol i strwythur, perfformiad a llywodraethu'r cytundeb hwn.

**Map Gwasanaethau**
Cynrychiolaeth neu gatalog gweledol neu ddisgrifiadol sy'n dangos yr holl wasanaethau y mae sefydliad yn eu darparu, sut maent yn cysylltu, a phwy sy'n eu defnyddio. Mae'n helpu i wneud synnwyr o'r hyn sy'n bodoli, ble mae gorgyffwrdd neu fylchau'n digwydd, a sut mae defnyddwyr yn eu profi.

**Rhiant-Wasanaeth**
Maes gwasanaeth eang neu lefel uchel sy'n dwyn sawl is-wasanaeth cysylltiedig ynghyd. Er enghraifft, gallai "Cyllid a Grantiau" fod yn rhiant-wasanaeth sy'n cynnwys sawl rhaglen grant benodol neu wasanaethau buddsoddi ar draws cynulleidfaoedd a derbynwyr amrywiol.

**Plentyn-Wasanaeth**
Gwasanaeth mwy penodol neu fanwl sy'n eistedd o fewn rhiant-wasanaeth. Fel rheol mae'n cefnogi siwrnai neu gynulleidfa defnyddiwr penodol, fel proses ymgeisio am grant neu ffrwd fuddsoddi unigol.

**Tacsonomeg**
Ffordd strwythuredig o drefnu gwasanaethau mewn hierarchaeth glir, sydd fel rheol yn grwpio gwasanaethau cysylltiedig o dan "riant-wasanaethau " ehangach gyda "phlentyn-wasanaethau" mwy penodol oddi tanynt. Mae tacsonomeg yn darparu fframwaith cyson, rhesymegol ar gyfer enwi, categoreiddio a deall sut mae gwasanaethau'n ymwneud â'i gilydd ar draws sefydliad.

**Tîm Digidol a Dylunio Gwasanaethau**
Tîm amlddisgyblaethol mewnol Chwaraeon Cymru sy'n gyfrifol am gefnogi dylunio, darparu a gwella gwasanaethau. Mae'r tîm yn dwyn ynghyd arbenigedd mewn dylunio gwasanaethau, ymchwil defnyddwyr, gallu digidol, datrysiadau technoleg, diogelu data a chyflawni gweithredol i helpu i sicrhau bod gwasanaethau'n effeithiol, yn canolbwyntio ar y defnyddiwr, ac yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r sefydliad.

# 1. Cefndir

1.1 Sefydlwyd Cyngor Chwaraeon Cymru (sy’n cael ei adnabod oddi wrth ei enw masnach, sef Chwaraeon Cymru) drwy Siarter Frenhinol dyddiedig 4 Chwefror 1972. Mae'n cael ei ariannu gan gyllid blynyddol gan Lywodraeth Cymru ac o incwm sy’n cael ei gynhyrchu o'i weithgareddau ei hun. Dyma brif gynghorydd Llywodraeth Cymru ar faterion chwaraeon ac mae’n gyfrifol am ddosbarthu arian Llywodraeth Cymru a’r Loteri Genedlaethol i chwaraeon yng Nghymru.

1.2 Chwaraeon Cymru yw'r sefydliad cenedlaethol sy'n gyfrifol am ddatblygu a hyrwyddo chwaraeon a gweithgarwch corfforol yng Nghymru ar lefelau cymunedol ac elitaidd. Mae hefyd yn gyfrifol am ddosbarthu symiau sylweddol o gyllid grant ar draws portffolio eang o weithgarwch chwaraeon yng Nghymru.

1.3 Mae Chwaraeon Cymru yn un o 44 o gyrff sector cyhoeddus yng Nghymru sy'n ddarostyngedig i *Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* Llywodraeth Cymru. Yn unol â hynny, mae Chwaraeon Cymru wedi datblygu ei nodau llesiant ei hun. Mae Archwilio Cymru yn gyfrifol am archwilio'r sefydliadau hyn i asesu i ba raddau y mae'r nodau llesiant a'r pum ffordd o weithio y mae'r Ddeddf yn eu hyrwyddo wedi cael eu cyflawni.

1.4 Ein nod ni yw nid yn unig gwella lefel y cyfranogiad chwaraeon ar lawr gwlad ond hefyd rhoi'r gefnogaeth sydd ei hangen ar ein hathletwyr uchelgeisiol ni i gystadlu'n llwyddiannus ar lwyfan y byd.

1.5 Ar hyn o bryd mae Chwaraeon Cymru yn gweithredu dros bedwar lleoliad yng Nghymru; mae'r safleoedd yn cynnwys ein dwy Ganolfan Genedlaethol, yng Ngerddi Sophia, Caerdydd a Phlas Menai, Caernarfon (mewn partneriaeth â Parkwood a Legacy Leisure); a swyddfeydd lloeren ar Lannau Dyfrdwy ac yn Llanelli.

1.6 Mae Chwaraeon Cymru wedi sefydlu Tîm Digidol a Dylunio Gwasanaethau pwrpasol, sy'n cynnwys arbenigwyr mewn dylunio gwasanaethau, ymchwil defnyddwyr, datblygu, datrysiadau technoleg, diogelu data, a rheoli rhaglenni digidol a thechnoleg. Pwrpas y tîm yw gwella gwasanaethau ar draws y sefydliad - yn bennaf drwy ddulliau digidol - er mwyn sicrhau eu bod yn effeithlon, yn gydgysylltiedig, ac yn diwallu anghenion defnyddwyr. Gan weithio'n fewnol ar draws pob maes yn Chwaraeon Cymru, mae'r tîm yn arwain ar wella sut mae gwasanaethau'n cael eu dylunio, eu darparu a'u profi.

1.7 Mae'r Tîm Digidol a Dylunio Gwasanaethau yn arwain y comisiwn hwn ar ran y sefydliad. Mae'r gwaith yn rhan o ymdrech ehangach i symud oddi wrth fodel adweithiol o gefnogi gwelliannau unigol i wasanaethau at ddull mwy strategol, ar draws y sefydliad, sy'n sicrhau bod gwasanaethau Chwaraeon Cymru yn gyson, yn gysylltiedig, ac yn canolbwyntio ar gyflawni’r gwerth a'r effaith fwyaf.

1.8 Bydd tîm uniongyrchol y prosiect yn cynnwys Steffan Berrow [Arweinydd Dylunio a Datblygu Gwasanaethau] a Paul Batcup [Arweinydd y Rhaglen Ddigidol] fel Rheolwyr y Prosiect a Pherchnogion y Cynnyrch, a Rhian Evans [Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cyfathrebu a Digideiddio Strategol] fel Noddwr y Prosiect.

# 2. Trosolwg o'r Gofyniad

2.1 Mae Chwaraeon Cymru eisiau comisiynu partner cymwys a phrofiadol addas i'n helpu i ddatblygu dealltwriaeth gynhwysfawr o'r gwasanaethau rydym yn eu darparu, gan gynnwys sut maent yn cysylltu ac yn perfformio. Rydym eisiau sefydlu golwg glir, ar draws y sefydliad, o'n gwasanaethau i nodi ble mae pethau'n gweithio'n dda, ble mae dyblygu neu fylchau'n bodoli, a ble gallai gwelliannau ddarparu'r budd mwyaf.

2.2 Bydd y gwaith hwn yn cynnwys diffinio a mapio ein gwasanaethau i greu dealltwriaeth gyffredin a gweledol o sut maent yn cyd-fynd. Dylai ein cefnogi i symud oddi wrth weithredu adweithiol at weithredu mwy strategol a rhagweithiol - gan alluogi'r Tîm Digidol a Dylunio Gwasanaethau a Chwaraeon Cymru yn ehangach i wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch pa wasanaethau i'w blaenoriaethu, buddsoddi ynddynt a'u gwella.

2.3 Drwy'r comisiwn hwn, ein nod yw cynhyrchu arteffact neu gasgliad o arteffactau sydd, gyda'i gilydd, yn ffurfio map gwasanaethau neu gatalog o wasanaethau. Bydd hyn yn helpu'r sefydliad i weld a chyfathrebu effaith ei wasanaethau, deall y perthnasoedd rhyngddynt, a chynnal darlun byw o sut mae'r tirlun gwasanaethau'n esblygu dros amser.

2.4 Yn y pen draw, dylai'r gwaith ddarparu'r sylfaen ar gyfer profiad defnyddwyr mwy cyson a chysylltiedig ar draws gwasanaethau Chwaraeon Cymru, a dealltwriaeth sefydliadol fwy cydlynol o sut mae'r gwasanaethau hynny'n cael eu darparu, eu rheoli a'u gwella.

2.5 Mae'r fanyleb hon yn nodi ein gofynion ni ar gyfer y gwaith hwn ac yn gwahodd tendrau gan gyflenwyr sydd â'r gallu a'r profiad i'w gyflawni.

# 3. Nodau

3.1 Gan ddod â safbwyntiau gweithredol a strategol ynghyd, prif nod y comisiwn hwn yw datblygu dealltwriaeth glir a chyffredin o wasanaethau Chwaraeon Cymru a sut maent, gyda'i gilydd, yn cyfrannu at gyflawni effaith ar draws y sefydliad.

3.2 Yn benodol, dyma'r nodau:

3.2.1 Diffinio beth sy'n cyfrif fel "gwasanaeth" ar draws Chwaraeon Cymru a datblygu iaith a dealltwriaeth gyffredin ymhlith cydweithwyr.

3.2.2 Datblygu tacsonomeg glir drwy grwpio gwasanaethau cysylltiedig yn 'rhiant-wasanaethau' rhesymegol gyda phlentyn-wasanaethau unigol, wedi'u diffinio oddi tanynt.

3.2.3 Mapio pob rhiant-wasanaeth a phlentyn-wasanaeth i ddangos sut maent yn gweithredu ac yn ffitio at ei gilydd, lle mae dibyniaethau'n bodoli, a sut

maent yn perfformio – gan gynhyrchu cerdyn gwasanaeth wedi'i gwblhau ar gyfer pob plentyn-wasanaeth.

3.2.4 Amlygu meysydd o ddyblygu, aneffeithlonrwydd, neu gyfle i wella profiad y defnyddiwr, cysondeb, a chyd-fynd â nodau sefydliadol.

3.2.5 Asesu cyfraniad ac arwyddocâd pob rhiant-wasanaeth a phlentyn-wasanaeth – gan gynnwys ystyriaethau ariannol, effaith ar gyfranogiad a chanlyniadau perfformiad, a chyd-fynd â blaenoriaethau strategol – i helpu i ddeall y gwerth y mae pob gwasanaeth yn ei ddarparu a lle gellid cryfhau ei gyfraniad.

3.2.6 Meithrin consensws a chefnogaeth sefydliadol, gan ymgysylltu â chydweithwyr ar draws y tîm uwch arweinyddiaeth a'r meysydd gweithredol ac arbenigol (gan gynnwys cyllid, technoleg a diogelu data) i sicrhau perchnogaeth a rennir o'r allbynnau.

3.2.7 Darparu tystiolaeth ac adnoddau i gefnogi gwneud penderfyniadau gwybodus, gan alluogi Chwaraeon Cymru i flaenoriaethu gwelliannau gwasanaeth yn strategol a dyrannu adnoddau lle byddant yn cael yr effaith fwyaf.

3.2.8 Gosod y sylfeini ar gyfer diwylliant sy'n rhoi'r gwasanaeth yn gyntaf, gan symud oddi wrth safbwyntiau adrannol ar wahân tuag at safbwynt mwy cysylltiedig a chydlynol o sut mae Chwaraeon Cymru yn darparu gwerth.

3.2.9 Sicrhau cynaliadwyedd y tu hwnt i oes y prosiect, drwy nodi argymhellion clir ar gyfer perchnogaeth, llywodraethu, prosesau ac, os yw'n briodol, meddalwedd i gynnal a sicrhau bod y map gwasanaethau'n parhau i fod yn 'fyw'.

3.3 Gyda'i gilydd, bydd y nodau hyn yn helpu Chwaraeon Cymru i symud o welliant gwasanaeth adweithiol i welliant gwasanaeth rhagweithiol – wedi'i wreiddio mewn tirlun gwasanaethau clir, gyda chefnogaeth tacsonomeg gyson, gwasanaethau wedi'u mapio, a chardiau gwasanaeth wedi'u cwblhau – i siapio blaenoriaethau'r dyfodol, bod yn sail i gynllunio, a chryfhau'r broses o wneud penderfyniadau ar bob lefel.

# *4. Cwmpas y Gwaith*

4.1 Bydd y cyflenwr a benodir yn dylunio ac yn cyflwyno rhaglen waith strwythuredig sy'n diffinio, yn grwpio, yn mapio ac yn asesu gwasanaethau Chwaraeon Cymru, gan gynhyrchu tacsonomeg gwasanaethau ddilys, tirlun gwasanaethau wedi'u mapio, a chardiau gwasanaeth wedi'u cwblhau.

4.2 Bydd y cyflenwr yn cytuno ar gynllun cyflawni, dull ymgysylltu, a dulliau arfaethedig gyda thîm y prosiect ar y dechrau.

### 4.3 Diffinio a Mapio Gwasanaethau

4.3..1 Hwyluso ymchwil cydweithredol gyda staff Chwaraeon Cymru i gyd-greu diffiniad gweithredol a rennir o "wasanaeth" sy'n addas ar gyfer gweithgareddau a gwasanaethau amrywiol Chwaraeon Cymru.

4.3..2 Datblygu tacsonomeg hierarchaidd o wasanaethau Chwaraeon Cymru, wedi'u trefnu'n rhiant-wasanaethau a phlentyn-wasanaethau drwy weithdai cydweithredol a dadansoddiadau.

4.3..3 Datblygu map gwasanaethau clir sy'n dangos perthnasoedd, strwythur a dibyniaethau'n weledol ar draws yr holl riant-wasanaethau a phlentyn-wasanaethau.

4.3..4 Dilysu'r map gwasanaethau a ddrafftiwyd a'r dacsonomeg gyda thimau a rhanddeiliaid perthnasol i sicrhau manwl gywirdeb, cyflawnder a chydlyniad sefydliadau.

4.3..5 Cynhyrchu cerdyn gwasanaeth wedi'i gwblhau ar gyfer pob plentyn-wasanaeth, gan fireinio'r templed cerdyn gwasanaeth mewn cydweithrediad â'r Tîm Digidol a Dylunio Gwasanaethau, a chofnodi meysydd y cytunwyd arnynt fel pwrpas, perchnogion, defnyddwyr, adnoddau, systemau, aeddfedrwydd, effaith a dangosyddion perfformiad eraill.

4.3..6 Nodi a delweddu rhyngddibyniaethau, gorgyffwrdd a phwyntiau poen, gan amlygu lle mae gwasanaethau sy'n tanberfformio neu'n "camgyflawni" yn effeithio ar eraill a'r system ehangach.

4.3..7 Cofnodi perchnogaeth, mewnbynnau a chanlyniadau ar gyfer pob gwasanaeth i gefnogi rheolaeth ac atebolrwydd parhaus.

### 4.4 Ymchwil a Meincnodi

4.4..1 Bydd y gwaith hwn wedi'i seilio'n bennaf ar ddata a thystiolaeth sydd eisoes yn bodoli a gedwir gan Chwaraeon Cymru, gyda dim ond casglu data ychwanegol ysgafn lle bo gwir angen a lle cytunwyd ar hyn ymlaen llaw.

4.4..2 Cynnal archwiliad data ac ymchwil i ddeall perfformiad presennol y gwasanaeth. Bydd y cyflenwr yn gweithio gyda thîm y prosiect yn Chwaraeon Cymru i nodi mesurau perfformiad e.e. perfformiad ariannol, effaith yn erbyn adnoddau, boddhad cwsmeriaid, Bwriadau Strategol Chwaraeon Cymru ac ati.

4.4..3 Meincnodi perfformiad gwasanaeth yn fewnol (ar draws swyddogaethau) a, lle bo modd, yn allanol yn erbyn cymaryddion sector neu wasanaeth cyhoeddus.

4.4..4 Trosi dirnadaeth yn ddatganiadau problem clir, meysydd cyfle, a dangosyddion llwyddiant.

### 4.5 Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

4.5..1 Dod ag unigolion a thimau sydd â swyddogaethau rhyngddibynnol neu gyflenwol ynghyd a defnyddio technegau i ddod â heriau a chyfleoedd a rennir i'r amlwg.

4.5..2 Ymgysylltu â phob lefel o'r sefydliad, o staff gweithredol i arbenigwyr pwnc, i arweinyddiaeth strategol ac uwch, i'r tîm gweithredol.

4.5..3 Darparu dogfennaeth glir o ganfyddiadau a phenderfyniadau i'w defnyddio yn y dyfodol.

4.5..4 Cyflwyno canfyddiadau drwy allbynnau ac arteffactau clir a hygyrch [e.e., tacsonomeg, map gwasanaethau, cardiau gwasanaeth, crynodebau gwybodaeth, ac argymhellion] y mae posib eu deall a'u defnyddio'n hawdd ar draws y sefydliad.

4.5..5 Dylai'r ymgysylltu fod yn effeithlon ac yn gymesur, gan ddefnyddio gweithdai, sgyrsiau ffocws, a gweithgareddau cydweithredol yn hytrach na chyfweliadau unigol helaeth, oni bai y cytunwyd i hynny.

# *5. Elfennau i'w Cyflawni*

5.1 Bydd y cyflenwr yn cyflawni'r canlynol, fel isafswm:

5.1..1 Diffiniad dilys o wasanaethau Chwaraeon Cymru.

5.1..2 Tacsonomeg gwasanaethau gyflawn [rhiant-wasanaethau a phlentyn-wasanaethau].

5.1..3 Tirlun gwasanaethau wedi'u mapio sy'n dangos perthnasoedd, dibyniaethau a gorgyffwrdd.

5.1..4 Cerdyn gwasanaeth wedi'i gwblhau ar gyfer pob plentyn-wasanaeth.

5.1..5 Diagramau llif gwasanaeth lefel uchel, ysgafn ar gyfer pob plentyn-wasanaeth [nid glasbrintiau gwasanaeth llawn].

5.1..6 Crynodeb o wybodaeth, problemau, bylchau a chyfleoedd.

5.1..7 Canfyddiadau meincnodi cymesur [mewnol ac allanol, lle bo hynny'n ymarferol].

5.1..8 Fersiynau y mae modd eu golygu o'r holl arteffactau, diagramau, mapiau a chardiau gwasanaeth.

5.1..9 Argymhellion ar gyfer llywodraethu, perchnogaeth, aeddfedrwydd a chynaliadwyedd.

5.1..10 Opsiynau clir ar gyfer y cam nesaf a blaenoriaethau a argymhellir ar gyfer camau mapio gwasanaethau yn y dyfodol, gan gynnwys sut gallai'r gwaith hwn neu waith yn y dyfodol gefnogi cynllunio a newid sefydliadol ehangach.

5.1..11 Cyflwyniad a phecyn terfynol ar gyfer yr arweinyddiaeth a'r tîm gweithredol.

5.1..12 Adroddiad ysgrifenedig terfynol [neu ddec sleidiau] yn crynhoi'r canfyddiadau, y ddirnadaeth, y dacsonomeg, y mapiau a'r argymhellion yn naratif cydlynol.

# 6. *Gofynion i'r Cyflenwr*

6.1 Rhaid i'r cyflenwr arddangos y canlynol:

6.1..1 Arbenigedd clir ac amlwg mewn mapio gwasanaethau, catalogio, a datblygu tacsonomegau rhiant-plentyn wasanaethau ar gyfer cyrff cyhoeddus cymhleth, sefydliadau nid-er-elw neu sefydliadau chwaraeon.

6.1..2 Enw da am hwyluso gweithdai a gweithgareddau cydweithredol gyda grwpiau rhanddeiliaid amrywiol, gan gynnwys staff gweithredol, arbenigwyr pwnc [e.e., cyllid, llywodraethu, datrysiadau technoleg], ac uwch arweinyddiaeth.

6.1..3 Profiad clir o fesur a chyflwyno perfformiad ac effaith gwasanaethau, gan ddefnyddio ystod o ddangosyddion meintiol ac ansoddol [e.e., ariannol, cyfranogiad, perfformiad, galw, profiad defnyddwyr].

6.1..4 Y gallu i drosi systemau a gwasanaethau cymhleth yn ddelweddau ac arteffactau clir i'w gweithredu, gan gynnwys mapiau gwasanaethau, catalogau, a dogfennaeth hygyrch sy'n addas ar gyfer cynulleidfaoedd nad ydynt yn dechnegol.

6.1..5 Tystiolaeth o gyflawni allbynnau cynaliadwy, lle mabwysiadwyd arteffactau [mapiau, tacsonomegau, templedi] yn llwyddiannus a'u cynnal yn annibynnol gan y sefydliad cleient.

6.1..6 Profiad o ddefnyddio dulliau dylunio sy'n seiliedig ar ddata, gan ddefnyddio tystiolaeth, dirnadaeth a data perfformiad presennol.

6.1..7 Dulliau cadarn o drin gwybodaeth sensitif, gyda'r arferion llywodraethu data'n cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 2018 a GDPR y DU.

6.1..8 Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar cadarn, gan gynnwys profiad o gynhyrchu adroddiadau terfynol clir, cyflwyniadau ar lefel weithredol, ac argymhellion ymarferol ar gyfer y camau nesaf.

# 7. Cyflwyno Ymatebion / Amserlen

7.1 Mae'r amserlen gaffael arfaethedig wedi'i nodi isod. Sylwer mai syniad yn unig yw'r dyddiadau sydd wedi'u nodi ac mae Chwaraeon Cymru yn cadw'r hawl i'w diwygio ar unrhyw adeg yn ystod y broses heb atebolrwydd.

| Gweithgarwch | Dyddiad | Cyfrifol |
|---|---|---|
| Cyhoeddi'r Gwahoddiad i Dendro (GID) ar GwerthwchiGymru | 14eg Ionawr 2026 | Chwaraeon Cymru |
| Dyddiad cau ar gyfer cwestiynau eglurhaol (cam GID) | 13eg Chwefror 2026 | Tendrwr |
| Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno tendr | 22ain Chwefror 2026 | Tendrwr |
| Asesiad / Sgorio'r GID | 23ain Chwefror 2026 i 5ed Mawrth 2026 | Chwaraeon Cymru |
| Hysbysiad o Ganlyniad / Cyhoeddi Hysbysiad Dyfarnu Contract | 6ed Mawrth 2026 | Chwaraeon Cymru |
| Dechrau'r Contract | 23ain Mawrth 2026 | Chwaraeon Cymru / Cyflenwr |

7.2 Rhaid cyflwyno cwestiynau eglurhad (ymholiadau) mewn perthynas â'r tendr drwy flwch post GwerthwchiGymru. Y dyddiad cau ar gyfer cwestiynau eglurhad mewn perthynas â'r tendr yw 13eg Chwefror 2026.

7.3 Rhaid cyflwyno'r cyflwyniadau Tendr ar ffurf electronig i'r cyfleuster Blwch Post ar gwerthwchigymru.llyw.cymru erbyn 23:59 ar 22ain Chwefror 2026. Ni fydd ymatebion a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau yn cael eu hystyried.

7.4 Mae canllaw defnyddiwr y Blwch Post Cyflenwyr ar gael o dan yr adran 'Help a Chefnogaeth' ar wefan GwerthwchiGymru.

7.5 Os bydd tendrwyr yn cael unrhyw broblemau wrth gyflwyno cwestiynau eglurhad, defnyddiwch swyddogaeth cymorth GwerthwchiGymru.

7.6 Gellir derbyn ymatebion yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Ni fydd ymatebion a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na'r rhai a gyflwynir yn Saesneg. Bydd yr holl ohebiaeth / cyfathrebu dilynol yn yr iaith y cyflwynwyd yr ymateb ynddi.

# 8. Manylion Cyfrinachol

8.1 Bydd y tendrwr (os yw ei gyflwyniad yn cael ei dderbyn ai peidio) a phawb arall sy'n derbyn y ddogfen Gwahoddiad i Dendro (os ydynt yn cyflwyno ymateb tendr ai peidio) yn trin manylion y ddogfen hon fel manylion preifat a chyfrinachol.

8.2 Bydd unrhyw gyflwyniad a dderbynnir mewn ymateb i'r Gwahoddiad i Dendro hwn yn cael ei drin yn yr un modd gan Chwaraeon Cymru, ac eithrio lle gofynnir amdano i gydymffurfio â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

## 9. *Treuliau a Cholledion yn y Tendr*

9.1 Rhaid i dendrwyr ysgwyddo'r holl gostau sy'n gysylltiedig â pharatoi a chyflwyno eu cyflwyniad tendr ac unrhyw gostau pellach a achosir cyn dyfarnu'r contract.

9.2 Ni fydd Chwaraeon Cymru yn gyfrifol am dreuliau na cholledion a all gael eu hachosi gan dendrwr wrth baratoi a chyflwyno eu hymateb i'r tendr ac wrth iddynt gymryd rhan yn y broses gaffael, heb ystyried y dull o gynnal y broses dendro neu'r canlyniad.

9.3 Mae Chwaraeon Cymru yn cadw'r hawl i derfynu'r broses dendro ar unrhyw adeg neu i ddyfarnu, neu beidio â dyfarnu, y cytundeb cyfan neu ran ohono, ac ni fydd yn atebol am unrhyw gostau a achosir gan y tendrwr o ganlyniad i'r weithred hon.

## 10. *Derbyn Tendrau*

10.1 Bydd Chwaraeon Cymru yn adolygu'r holl dendrau sy'n cael eu derbyn / uwchlwytho drwy borthol GwerthwchiGymru erbyn y dyddiad cau.

## 11. *Ymrwymiad Cytundebol y Cais*

11.1 Ac eithrio camgymeriad amlwg, neu fel y cytunir yn benodol fel arall gan Chwaraeon Cymru a'r tendrwr, ystyrir bod cynnwys y cynigion a gyflwynir yn rhwymol ar ran y tendrwr ac yn agored i'w derbyn gan Chwaraeon Cymru.

11.2 Cyn cyflwyno eu cynnig, mae tendrwyr yn gyfrifol am sicrhau bod eu staff, a staff unrhyw is-gyflenwyr, yn gwbl ymwybodol o'r holl ofynion technegol, masnachol a chyfreithiol sy'n ymwneud â'r caffael hwn.

11.3 Dylai tendr fod yn ddilys i'w dderbyn am gyfnod o ddim llai na 120 diwrnod o ddyddiad y cyflwyniad.

## 12. *Amodau'r Tendr*

12.1 Drwy gyflwyno tendr, rydych yn cydnabod ac yn cytuno'n llawn i'r amodau canlynol:

12.2 Mae cynnwys a gofynion y dogfennau tendro wedi cael eu darllen, eu deall a, lle bo angen, cydymffurfiwyd â hwy.

12.3 Mae hwn yn dendr dilys, ac nid yw’r prisiau a / neu’r symiau a nodir yma wedi’u haddasu ac ni fu unrhyw ddylanwad annheg arnynt oherwydd unrhyw drefniadau neu gytundebau gydag unrhyw drydydd parti.

12.4 Nid ydych, ac ni fyddwch, cyn dyfarnu unrhyw gontract, yn cyfathrebu ag eraill ac eithrio'r sefydliad tendro ynghylch y swm a dendrwyd neu fanylion penodol y swm, ac eithrio pan fo angen datgelu'r wybodaeth hon i gael gwybodaeth i gefnogi eich cais.

12.5 Nid ydych ac ni fyddwch yn gwneud unrhyw drefniant neu gytundeb a allai arwain at eraill yn peidio â chyflwyno tendr neu ddylanwadu ar y swm a gyflwynir gan eraill.

12.6 Nid ydych ac ni fyddwch yn cynnig unrhyw gymhelliant, yn ariannol neu fel arall, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i unrhyw berson neu drydydd parti mewn unrhyw ffordd i ddylanwadu ar unrhyw dendr a gyflwynir neu ran ohono.

12.7 Rydych drwy hyn yn cynnig ymrwymo i gontract gyda Chwaraeon Cymru yn unol â’r gofynion yn y tendr hwn ac ar gyfer y costau a’r taliadau sydd wedi’u cynnwys yn eich ymateb tendro.

12.8 Mae unrhyw a phob mater, boed yn dechnegol, yn weithredol, yn fasnachol neu’n gytundebol, lle nad yw eich ymateb i’r tendr yn cydymffurfio, naill ai’n llawn neu’n rhannol, â gofynion y tendr hwn, wedi’u diffinio’n glir mewn dogfen o dan y pennawd ‘Cymwysterau Tendro’ a’i chyflwyno fel rhan o’ch ymateb tendro.

## 13. Newidiadau i’r Fanyleb a’r Gofynion

13.1 Mae Cwmpas y Gwaith (adran 4) a’r Elfennau i’w Cyflawni (adran 5) yn datgan gofynion Chwaraeon Cymru yn llawn. Mae'n bosibl, yn ystod oes unrhyw gytundeb a weithredir, y bydd newidiadau’n codi i Gwmpas y Gwaith a / neu’r Elfennau i’w Cyflawni.

13.2 Gofynnir am newidiadau i naill ai Gwmpas y Gwaith neu’r Elfennau i’w Cyflawni, a chytunir arnynt, gan Chwaraeon Cymru a'r Cyflenwr a dim ond ar ôl i Chwaraeon Cymru a'r Cyflenwr lofnodi atodiad i'r contract a'r Cwmpas a'r Elfennau i’w Cyflawni y cytunwyd arnynt y bydd hyn yn cael ei gyflawni.

## 14. Telerau Talu

14.1 Yn unol â Deddf Caffael 2023, gwneir taliad o fewn 30 diwrnod i dderbyn anfoneb ddilys, gan ddyfynnu Gorchymyn Prynu dilys, gydag anfonebau i'w cyflwyno yn unol â'r taliad a drefnwyd a gytunwyd cyn neu ar adeg dyfarnu'r contract.

14.2 Er mwyn i anfoneb gael ei hystyried yn ddilys ac yn dderbyniol i'w thalu, rhaid ei hanfon yn electronig (h.y. ar e-bost) a rhaid iddi gynnwys y wybodaeth ganlynol o leiaf:

- Enw'r Cyflenwr;
- Disgrifiad o'r nwyddau, y dyddiad cyflawni, y gwasanaethau a / neu'r gwaith a gyflenwyd i Chwaraeon Cymru;
- Y swm y gofynnir amdano; a
- Cyfeirnod / rhif anfoneb unigryw.

14.3 Rhaid cyflwyno pob anfoneb i finance@sport.wales.

14.4 Os ystyrir bod anfoneb yn annilys a / neu os oes anghydfod ynghylch y swm sy'n daladwy, hysbysir y Cyflenwr cyn gynted ag y bo'n ymarferol a bydd y telerau talu 30 diwrnod yn cael eu gohirio nes bod yr holl ymholiadau wedi'u datrys.

# 15. Diogelwch

15.1 Rhaid i'r Cyflenwr llwyddiannus gadw at rwymedigaethau "Prosesydd Data" fel y'u nodir yn Neddf Diogelu Data 2018 (DPA 2018) ac Erthygl 28 GDPR 679/2016 yr UE. Yn unol â Phennod 2 Deddf Diogelu Data 2018, mae'r Cyflenwr yn gyfrifol am sicrhau bod yr holl ddata personol a brosesir wrth ddarparu gwasanaethau, nwyddau neu waith o dan y cytundeb hwn yn cael eu trin yn unol â'r safonau a nodir ym Mhennod IV.

# 16. Yr Iaith Gymraeg

16.1 Er bod canolbwynt y gwaith yn fewnol ac nid ar ddefnyddwyr, rhaid i'r Cyflenwr sicrhau bod unrhyw allbynnau neu ddeunyddiau sydd wedi'u bwriadu ar gyfer cylchrediad allanol ehangach yn cydymffurfio ag ymrwymiad iaith Gymraeg Chwaraeon Cymru os oes angen. Fodd bynnag, ni ragwelir unrhyw ddarpariaeth yn y Gymraeg ar gyfer y comisiwn hwn.

# 17. Rheoli a Llywodraethu'r Contract

17.1 Cynhelir Cyfarfodydd Sefydlu Prosiect rhwng Chwaraeon Cymru a'r Cyflenwr a benodir ar ddechrau'r contract i gadarnhau'r elfennau manwl i'w cyflawni, mireinio amserlenni, cytuno ar lywodraethu'r prosiect, a sefydlu protocolau cyfathrebu allweddol i sicrhau cyflawni llwyddiannus.

17.2 Manylion Masnachol

17.2..1 Hyd y Contract: 4 mis

17.2..2 Gwerth Disgwyliedig y Contract: £60,000 ac eithrio TAW [dros hyd y contract]

17.3 Cymalau Terfynu:

17.3..1 Cymal terfynu i'w weithredu yn unol â disgresiwn Chwaraeon Cymru os yw safon cyflawni'r prosiect yn is na'r hyn y cytunwyd arno o ran diwallu gofynion y prosiect, cwmpas y gwaith a'r elfennau i'w cyflawni.

17.3..2 Cymal(au) terfynu i'w hychwanegu a'u gweithredu yn unol â disgresiwn Chwaraeon Cymru drwy gydol y contract yn seiliedig ar berfformiad y Cyflenwr *[mae'r cymalau terfynu a'r lefelau perfformiad hyn i'w cytuno ar adeg dyfarnu'r contract].*

17.4 Cyfrifoldebau

Bydd Chwaraeon Cymru yn darparu mynediad at ddata ac adnoddau sydd eisoes wedi'u casglu ac yn sicrhau bod aelodau o'r tîm mewnol ar gael i ymgymryd ag ymchwil ychwanegol yn ôl yr angen.

17.5 Cadw Cofnodion ac Adrodd yn Ôl

17.5..1 Bydd yn ofynnol i'r Cyflenwr reoli holl ddata Chwaraeon Cymru yn briodol, yn unol â GDPR y DU, Deddf Diogelu Data 2018, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.

17.5..2 Rhaid i'r Cyflenwr gytuno i beidio â defnyddio na datgelu Gwybodaeth Gyfrinachol a ddarperir wrth baratoi'r Cynllun, a bod yn rhwym i bolisïau cyfrinachedd Chwaraeon Cymru. Gall hyn gynnwys ymrwymo i gytundeb peidio â datgelu safonol.

17.6 Llywodraethu

17.6..1 Bydd Chwaraeon Cymru yn penodi Rheolwr Contract i weithredu fel y pwynt cyswllt uniongyrchol rhyngddo ef a'r Cyflenwr llwyddiannus.

17.6..2 Rhaid i'r Cyflenwr hefyd benodi Rheolwr Contract pwrpasol i weithredu fel y pwynt cyswllt uniongyrchol rhwng ei sefydliad a Chwaraeon Cymru (h.y. Rheolwr Cyfrif penodol wedi'i enwi).

17.6..3 Rhaid i'r Cyflenwr hefyd benodi Rheolwr Prosiect i oruchwylio cyflawni'r prosiect [os nad yw wedi'i ymgorffori yn rôl y Rheolwr Contract]. Rhaid i'r Rheolwr Prosiect fod â gwybodaeth fanwl am ofynion Chwaraeon Cymru.

17.7 Rheoli Ansawdd a Pherfformiad

17.7..1 Cytunir ar amserlen gyflawni fanwl a chyraeddadwy rhwng Chwaraeon Cymru a'r Cyflenwr a'i rhoi ar waith i'w defnyddio.

17.7..2 Oni bai fod Chwaraeon Cymru wedi cytuno fel arall, os bydd perfformiad y Cyflenwr yn erbyn y cynllun cyflawni yn methu â chyflawni'r gofynion

perfformiad y cytunwyd arnynt, gall Chwaraeon Cymru eu cyfarwyddo i ddarparu cynigion i ddatrys y tanberfformiad ar ffurf cynllun gwella.

17.7..3 Bydd y Cyflenwr yn darparu ei gynigion o fewn pedwar diwrnod ar ddeg i'r cyfarwyddyd hwn. Bydd cynigion o'r fath yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, esboniad o achos sylfaenol y tanberfformiad, pwyntiau gweithredu allweddol i adfer y sefyllfa ac amserlen ar gyfer cywiro'r tanberfformiad.

17.7..4 Bydd Chwaraeon Cymru yn rhoi cyfarwyddyd i ddatrys y tanberfformiad naill ai drwy dderbyn Cynllun Gwella'r Cyflenwr neu drwy gyfarwyddo sut dylid mynd i'r afael â'r tanberfformiad fel arall.

17.8 Cynllunio Mynediad a Gadael

17.8..1 Os na all Chwaraeon Cymru a'r Cyflenwr sy'n cael ei ffafrio gytuno ar fanylion contract, mae Chwaraeon Cymru yn cadw'r hawl i edrych ar ddyfarnu'r contract i'r tendrwr gyda'r ail sgôr uchaf.

*17.8..2 Sylwer y bydd y broses o ddyfarnu posibl i'r tendrwr gyda'r ail sgôr uchaf, os na fydd y dyfarniad yn mynd i'r Cyflenwr sy'n cael ei ffafrio, yn cael ei sefydlu yn unol â disgresiwn llwyr Chwaraeon Cymru.*

17.8..3 Cynhelir cyfarfod sefydlu'r prosiect i benderfynu'n fanwl ar allbynnau ac amserlenni.

17.8..4 Ar ddiwedd y contract, bydd yn ofynnol i'r Cyflenwr sy'n gadael ddychwelyd dogfennau nad oes eu hangen mwyach at ddibenion cyfreithiol neu reoleiddiol a rhoi sicrwydd i Chwaraeon Cymru bod yr holl ddogfennaeth arall ac unrhyw ddata wedi'u dinistrio / eu dileu.

# 18. Y Broses Asesu

18.1 Trosolwg o Broses Asesu'r Gwahoddiad i Dendro

18.1..1 Mae'r Broses Asesu'n cynnwys un cam, sef y gwahoddiad i dendro llawn.

18.1..2 Mae'n ofynnol i dendrwyr ddefnyddio'r templedi ymateb a ddarperir fel rhan o'r pecyn tendro. Ni fydd tendrau a gyflwynir heb ddefnyddio'r templedi a ddarperir yn cael eu hystyried.

18.2 Gwahoddiad i Dendro

18.2..1 Rhaid i dendrwyr ddarparu ymatebion manwl a thystiolaeth ategol o ran sut maent yn bodloni gofynion y prosiect. Rhaid i dendrwyr ymateb i'r gyfres lawn o ofynion, gan ddarparu tystiolaeth lle bo hynny'n bosibl.

18.2..2 Defnyddiwch y dogfennau canlynol i ddarparu ymatebion tendr:

- ‘Gofynion y Prosiect – templed ymateb’
- ‘Masnachol – templed ymateb’
- ‘Ffurflen y Tendr’

18.2..3 Rhaid ateb pob gofyniad yn glir gan ddefnyddio'r templedi a ddarperir. Ni fydd ymatebion a thystiolaeth a ddarperir y tu allan i'r templedi’n cael eu hystyried wrth sgorio ymateb y tendrwr.

18.2..4 Dylid cynnwys tystiolaeth ategol, fel enghreifftiau o waith yn y gorffennol neu gynlluniau ar gyfer sut i gyflawni'r prosiect hwn lle bo modd.

18.2..5 Rhaid i dendrwyr ddarparu dadansoddiad clir a thryloyw o'r holl gostau sy'n gysylltiedig â chyflawni'r comisiwn hwn. Dylid dyfynnu'r holl gostau mewn GBP a heb gynnwys TAW.

18.2..5.1 *Costau Cyflawni’r Prosiect*
Yr holl gostau sy'n gysylltiedig â dylunio, cyflawni a rheoli'r gwaith, gan gynnwys y canlynol:
- Rheoli a chydlynu’r prosiect
- Gweithgareddau ymchwil, ymgysylltu a hwyluso.
- Dadansoddi, synthesis a chynhyrchu allbynnau ac arteffactau.
- Paratoi a chyflwyno cyflwyniadau, sesiynau dangos a dweud, ac adrodd terfynol

18.2..5.2 *Costau Adnoddau*
Dadansoddiad o ddyraniad adnoddau a chyfraddau dyddiol ar gyfer pob rôl (e.e., arweinydd y prosiect, dylunydd gwasanaethau, ymchwilydd defnyddwyr, dadansoddydd, neu arbenigwr arall). Cofiwch gynnwys amcangyfrif o nifer y dyddiau a neilltuir i bob rôl.

18.2..5.3 *Teithio a Chynhaliaeth*
Unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â theithio, llety neu gynhaliaeth sy'n angenrheidiol i gyflawni'r gwaith (os yw’n berthnasol). Mae Chwaraeon Cymru yn gweithredu model gweithio hybrid ac yn disgwyl i'r rhan fwyaf o’r ymgysylltu gael ei gynnal yn rhithwir; dylid cytuno ar unrhyw bresenoldeb corfforol ymlaen llaw.

18.2..5.4 *Gweithdai ac Ymgysylltu*
Costau sy'n gysylltiedig â dylunio a chyflwyno gweithdai neu sesiynau ymgysylltu gyda staff a rhanddeiliaid Chwaraeon Cymru, gan gynnwys paratoi deunyddiau a hwyluso.

18.2..5.5 *Gwasanaethau Dewisol neu Ychwanegol*
Gall tendrwyr gynnwys unrhyw weithgareddau dewisol neu werth ychwanegol y maent yn credu fyddai’n gwella canlyniadau'r prosiect (e.e. ymchwil, hyfforddiant neu gefnogaeth weithredu ychwanegol). Dylid rhestru'r rhain yn glir a'u costio ar wahân.

18.2..5.6 *Rhagdybiaethau cost*
Rhaid i dendrwyr fanylu ar unrhyw ragdybiaethau sy’n sail i’w prisiau, gan gynnwys:
- Arian cyfred a sefyllfa dreth (e.e., yn cynnwys neu heb TAW)

- Cyfnod dilysrwydd y pris
- Unrhyw ddibyniaethau neu amodau cost

18.3 Gwerthuso'r Tendr

18.3..1 Bydd tendrau'n cael eu gwerthuso yn seiliedig ar gyfuniad o allu'r tendrwyr i gyflawni gofynion y prosiect a'r meini prawf masnachol. Bydd y gwerthusiad yn cael ei bwysoli fel a ganlyn:

| Maes Gwerthuso | Pwysoli (%) |
|---|---|
| Y gallu i gyflawni gofynion y prosiect | 80% |
| Masnachol | 20% |

18.3..2 Y gallu i gyflawni gofynion y prosiect (80%)

18.3..2.1 Bydd yr asesiad o allu'r tendrwr i gyflawni gofynion y prosiect yn ystyried pa mor dda y mae'r tendrwr yn gallu dangos sut mae'n bodloni'r ystod lawn o ofynion ar gyfer y prosiect hwn.

18.3..3 Gwerthusiad Masnachol (20%)

18.3..3.1 Bydd yr asesiad masnachol yn canolbwyntio ar werth am arian cyffredinol, gan ystyried y canlynol:

- Cyfanswm cost y gwaith a'r gefnogaeth
- Eglurder a chyflawnder yr amserlen brisio

18.3..3.2 Bydd yr elfen fasnachol yn cyfrif am 20% o'r sgôr werthuso gyffredinol, gan sicrhau bod cost yn ffactor arwyddocaol ond nid yn ffactor hollbwysig yn y broses ddewis.

18.4 Sgorio'r Tendr

18.4..1 Bydd y cynnig gyda'r pris isaf a dderbynnir yn cael y pwysau mwyaf (20%). Bydd pob cynnig arall yn gyfrannol yn erbyn y cynnig buddugol.

18.4..2 Bydd yr ymatebion i'r tendr yn cael eu gwerthuso yn seiliedig ar ansawdd a phris.

18.4..3 Bydd ansawdd pob ymateb yn cael ei asesu yn erbyn y raddfa sgorio sydd wedi'i diffinio, gyda'r sgoriau'n amrywio o 0 (dim ymateb neu ymateb amherthnasol) i 5 (ymateb rhagorol). Disgwylir i dendrwyr ddarparu atebion manwl, yn seiliedig ar dystiolaeth sy'n dangos eu dealltwriaeth o'r gofynion a'u gallu i gyflawni'n llwyddiannus.

18.4..4 Bydd yr elfen brisio yn cyfrif am 20% o gyfanswm y sgôr. Bydd y cynnig gyda'r pris isaf a dderbynnir yn derbyn y sgôr uchaf am bris yn awtomatig. Bydd pob cynnig arall yn cael ei sgorio'n gyfrannol yn erbyn y cynnig isaf, gan sicrhau asesiad teg a chyson o werth am arian.

18.4..5 Bydd ansawdd a phris yn cael eu pwysoli a'u cyfuno i bennu'r sgôr gyffredinol ar gyfer pob tendrwr.

18.4..6 Siart sgorio

| Gwerth y Sgôr | Disgrifiad o'r Sgôr |
|---|---|
| Sgôr o 0 lle mae | Dim ymateb neu ymateb nad yw'n berthnasol i'r cwestiwn neu'r cwestiwn heb ei ateb. |
| Sgôr o 1 lle mae | Ymateb Gwael - Mae'r ateb wedi mynd i'r afael â'r cwestiwn yn rhannol ond mae diffyg tystiolaeth o'r gofynion a geisir. Diffyg dealltwriaeth wirioneddol o'r gofyniad neu dystiolaeth o'r gallu i gyflawni. |
| Sgôr o 2 lle mae | Mae'r ymateb yn mynd i'r afael â'r cwestiwn ond yn darparu manylion cyfyngedig neu dystiolaeth wan. Mae rhywfaint o ddealltwriaeth o'r gofyniad, ond dim ond rhannol yw'r hyder yn y gallu i gyflawni'n llawn. Mae'r ymateb yn well na gwael ond nid yw'n bodloni safon dderbyniol. |
| Sgôr o 3 lle mae | Ymateb Derbyniol - Mae'r ymateb yn cydymffurfio â'r cwestiwn ac yn darparu tystiolaeth y gofynnwyd amdani. |
| Sgôr o 4 lle mae | Mae'r ymateb yn mynd i'r afael â'r cwestiwn yn uniongyrchol gyda thystiolaeth berthnasol a digonol i gefnogi'r ateb. Mae'r tendrwr yn dangos y gall fodloni'r gofyniad ac, o bosibl, rhagori arno mewn rhai meysydd, er nad i'r lefel gynhwysfawr neu eithriadol sy'n ofynnol ar gyfer sgôr o 5. |
| Sgôr o 5 lle mae | Ymateb Rhagorol – Mae'n mynd i'r afael â'r cwestiwn yn uniongyrchol gyda thystiolaeth glir i gefnogi atebion. Mae'r tendrwr yn dangos y gall fodloni'r gofyniad neu ragori arno. |

## 18.5 Pwysoli'r Sgôr

18.5..1 Mae lefel flaenoriaeth wedi'i neilltuo i bob gofyniad yn y tendr hwn i adlewyrchu ei bwysigrwydd i gyflawni'r system yn llwyddiannus. Mae'r matrics pwysoli isod yn amlinellu sut mae pob lefel blaenoriaeth yn cyfrannu at y gwerthusiad cyffredinol:

- *Hanfodol (Pwysoli: 3)* – Mae'r rhain yn ofynion hanfodol sy'n allweddol ar gyfer llwyddiant. Ni all y system weithredu na chael ei derbyn heb y rhain. Gall methu â bodloni'r gofynion hanfodol yn ddigonol arwain at sgôr isel.

- *Dymunol (Pwysoli: 2)* – Mae'r rhain yn ofynion pwysig sy'n darparu gwerth sylweddol ac yn gwella'r system gyffredinol ond nid ydynt yn hollbwysig ar gyfer y lefel isaf o weithredu derbyniol.

18.5..2 Dylai tendrwyr sicrhau bod eu hymatebion yn mynd i'r afael yn ofalus â'r holl ofynion, gyda ffocws penodol ar y rhai a farciwyd â 3, gan mai hwy sydd â'r pwysau mwyaf yn y broses werthuso.

# 19. Gofynion

19.1 Mae'r adran hon yn nodi'r Gofynion sy'n sail i'r caffael hwn.

19.2 **Gofynion y Prosiect**

| Gofynion Mapio Gwasanaethau a Thacsonomeg | | | |
|---|---|---|---|
| Rhif y Gofyniad | Gofyniad | Pwysoli | Sgôr Uchafswm |
| 1. | Rhaid i'r cyflenwr ddangos profiad o ddiffinio gwasanaethau mewn sefydliadau cymhleth a chyd-greu diffiniadau gwasanaeth gweithredol gyda staff | 3 | 15 |
| 2. | Rhaid i'r cyflenwr ddangos profiad o ddatblygu tacsonomegau gwasanaeth hierarchaidd, gan gynnwys strwythurau rhiant-plentyn | 3 | 15 |
| 3. | Rhaid i'r cyflenwr amlinellu ei ddull o grwpio gwasanaethau yn gategorïau rhiant-plentyn drwy weithdai cydweithredol a dadansoddiadau | 3 | 15 |
| 4. | Rhaid i'r cyflenwr ddangos profiad o gynhyrchu mapiau gwasanaethau gweledol sy'n dangos perthnasoedd, | 3 | 15 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | dibyniaethau a strwythur ar draws sawl gwasanaeth | | |
| 5. | Rhaid i'r cyflenwr fanylu ar sut bydd yn dilysu'r tacsonomeg ddrafft a'r map gwasanaethau gyda rhanddeiliaid er mwyn sicrhau manwl gywirdeb a chyflawnder | 3 | 15 |
| 6. | Rhaid i'r cyflenwr ddangos profiad o gynhyrchu cardiau neu gatalogau gwasanaeth, gan gynnwys sut mae'n diffinio meysydd fel pwrpas, defnyddwyr, perchnogaeth, systemau, adnoddau, aeddfedrwydd a dangosyddion perfformiad | 3 | 15 |
| 7. | Rhaid i'r cyflenwr ddisgrifio sut bydd yn mireinio'r templed cerdyn gwasanaeth ar y cyd â Chwaraeon Cymru | 3 | 15 |
| Gofynion Perfformiad, Dirnadaeth a Meincnodi | | | |
| Rhif y Gofyniad | Gofyniad | Pwysoli | Sgôr Uchafswm |
| 8. | Rhaid i'r cyflenwr ddangos profiad o ddadansoddi perfformiad gwasanaeth gan ddefnyddio mesurau meintiol ac ansoddol (e.e., ariannol, cyfranogiad, profiad defnyddwyr, galw) | 3 | 15 |
| 9. | Rhaid i'r cyflenwr ddisgrifio ei ddull o ddefnyddio data a dirnadaeth sefydliadol presennol i asesu perfformiad gwasanaeth | 3 | 15 |
| 10. | Rhaid i'r cyflenwr ddangos profiad o drosi dirnadaeth perfformiad yn ddatganiadau problemau clir a meysydd cyfle | 3 | 15 |
| 11. | Rhaid i'r cyflenwr ddisgrifio sut bydd yn darparu meincnodi cymesur, gan gynnwys sut bydd yn nodi cymaryddion mewnol ac allanol priodol | 3 | 15 |
| Gofynion Ymgysylltu â Rhanddeiliaid a Chyd-ddylunio | | | |
| Rhif y Gofyniad | Gofyniad | Pwysoli | Sgôr Uchafswm |
| 12. | Rhaid i'r cyflenwr ddangos profiad o hwyluso gweithdai a gweithgareddau cydweithredol gyda grwpiau rhanddeiliaid amrywiol, gan gynnwys timau gweithredol, arbenigwyr pwnc ac uwch arweinwyr | 3 | 15 |
| 13. | Rhaid i'r cyflenwr ddisgrifio sut bydd yn darparu ymgysylltu effeithlon a chymesur (e.e., gweithdai, sgyrsiau ffocws) heb ddibynnu ar gyfweliadau unigol helaeth | 3 | 15 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 14. | Rhaid i'r cyflenwr ddangos sut bydd yn cynnwys meysydd arbenigol fel cyllid, llywodraethu, technoleg a diogelu data | 3 | 15 |
| 15. | Rhaid i'r cyflenwr ddangos profiad o sicrhau cefnogaeth sefydliadol a chefnogi newid diwylliant drwy gyd-ddylunio ac ymgysylltu | 3 | 15 |
| Gofynion Cyfathrebu, Delweddu ac Allbwn | | | |
| Rhif y Gofyniad | Gofyniad | Pwysoli | Sgôr Uchafswm |
| 16. | Rhaid i'r cyflenwr ddangos y gallu i gyflwyno systemau a gwasanaethau cymhleth mewn fformatau gweledol clir a hygyrch | 3 | 15 |
| 17. | Rhaid i'r cyflenwr ddarparu enghreifftiau o fapiau gwasanaethau, catalogau neu ddiagramau y mae wedi'u cynhyrchu ar gyfer sefydliadau tebyg | 3 | 15 |
| 18. | Rhaid i'r cyflenwr ddangos sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar cadarn, gan gynnwys profiad o gynhyrchu deciau sleidiau lefel weithredol ac adroddiadau terfynol | 3 | 15 |
| 19. | Rhaid i'r cyflenwr ddisgrifio sut bydd yn sicrhau bod yr holl allbynnau (tacsonomeg, cardiau gwasanaeth, map gwasanaethau, dirnadaeth, argymhellion) yn hygyrch i gynulleidfaoedd nad ydynt yn arbenigwyr | 3 | 15 |
| 20. | Rhaid i'r cyflenwr gadarnhau y bydd yn darparu fersiynau y mae posib eu golygu o'r holl arteffactau a deunyddiau | 3 | 15 |
| Gofynion Cynaliadwyedd, Llywodraethu a Throsglwyddo | | | |
| Rhif y Gofyniad | Gofyniad | Pwysoli | Sgôr Uchafswm |
| 21. | Rhaid i'r cyflenwr ddangos profiad o gynhyrchu elfennau i'w cyflawni y mae posib eu mabwysiadu a'u cynnal yn annibynnol gan sefydliad cleient | 3 | 15 |
| 22. | Rhaid i'r cyflenwr ddisgrifio sut bydd yn datblygu argymhellion clir ar gyfer perchnogaeth, llywodraethu a rheolaeth barhaus ar y map gwasanaethau | 3 | 15 |
| 23. | Rhaid i'r cyflenwr amlinellu sut bydd yn sicrhau cynaliadwyedd allbynnau y tu hwnt i oes y prosiect | 3 | 15 |
| 24. | Rhaid i'r cyflenwr ddisgrifio sut bydd yn nodi ac yn argymell opsiynau cam nesaf ar gyfer camau mapio gwasanaethau, gwella | 3 | 15 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gwasanaethau, neu newid sefydliadol yn y dyfodol | | |
| 25. | Rhaid i'r cyflenwr ddangos arferion llywodraethu data cadarn sy'n cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 2018 a GDPR y DU | 3 | 15 |
| 26. | Rhaid i'r cyflenwr ddisgrifio ei ddull o drin gwybodaeth sensitif a gweithio gyda setiau data mewnol | 3 | 15 |
| 27. | Rhaid i'r cyflenwr ddisgrifio sut bydd yn trosglwyddo gwybodaeth ac yn meithrin gallu o fewn Chwaraeon Cymru i alluogi cydweithwyr i ddeall, defnyddio a chynnal y dacsonomeg gwasanaethau, y map gwasanaethau ac arteffactau cysylltiedig. | 2 | 10 |

## *20. Rhestr wirio o ddogfennau ymateb i'w dychwelyd*

20.1 Ymatebwch i bob un o'r gofynion a nodir yn adran 19 erbyn 22ain Chwefror 2026, gan ddefnyddio'r templedi ymateb a ddarperir gyda'r gwahoddiad i dendro hwn.

20.2 Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r dogfennau y dylai tendrwyr eu cwblhau a'u dychwelyd.

| Teitl y ddogfen | Erbyn pryd? | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|
| Gofynion y Prosiect – templed ymateb | 22/02/26 | I'w gwblhau gan y tendrwr |
| Masnachol – templed ymateb | 22/02/26 | I'w gwblhau gan y tendrwr |
| Ffurflen y Tendr | 22/02/26 | I'w gwblhau gan y tendrwr |